



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Unpublished

YSTADEGAU, DOGFENNU

Masnach nwyddau rhyngwladol Cymreig: lonawr i Rhagfyr 2025 (prif ddata)

Data ar fasnach nwyddau Cymreig i lefydd tu hwnt i'r DU
rhwng Ionawr i Rhagfyr 2025.

Cyhoeddwyd gyntaf: 19 Mawrth 2026

Diweddarwyd ddiwethaf: 19 Mawrth 2026

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/masnach-nwyddau-rhyngwladol-cymreig-ionawr-i-rhagfyr-2025-prif-ddata-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint) (<https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint>).

Cynnwys

Cyflwyniad (<https://www.llyw.cymru/masnach-nwyddau-rhyngwladol-cymreig-ionawr-i-rhagfyr-2025-prif-ddata-html#199874>)

Y flwyddyn yn gorffen Rhagfyr 2025 (dros dro) (<https://www.llyw.cymru/masnach-nwyddau-rhyngwladol-cymreig-ionawr-i-rhagfyr-2025-prif-ddata-html#199876>)

Nodiadau (<https://www.llyw.cymru/masnach-nwyddau-rhyngwladol-cymreig-ionawr-i-rhagfyr-2025-prif-ddata-html#199878>)

Gwybodaeth bellach (<https://www.llyw.cymru/masnach-nwyddau-rhyngwladol-cymreig-ionawr-i-rhagfyr-2025-prif-ddata-html#199880>)

Troednodiadau (<https://www.llyw.cymru/masnach-nwyddau-rhyngwladol-cymreig-ionawr-i-rhagfyr-2025-prif-ddata-html#199882>)

Manylion cyswllt (<https://www.llyw.cymru/masnach-nwyddau-rhyngwladol-cymreig-ionawr-i-rhagfyr-2025-prif-ddata-html#199884>)

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/masnach-nwyddau-rhyngwladol-cymreig-ionawr-i-rhagfyr-2025-prif-ddata-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint** (<https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint>).

Cyflwyniad

Amcangyfrifon dros dro yw'r data yn yr adroddiad hwn ar gyfer Ionawr i Ragfyr 2025, gyda diwygiadau i'r data yn ôl hyd Chwarter 1 2025. **Wnaeth CThEF cyhoeddi cywiriadau sylweddol heb eu trefnu i ystadegau masnach dramor y DU mewn nwyddau** (<https://www.uktradeinfo.com/news/pre-announcement-of-corrections-to-the-uk-overseas-trade-in-goods-statistics/>) yn Nhachwedd 2025, sy'n effeithio'n benodol ar allforion 'Olew' (SITC 33) [[troednodyn 1](https://www.llyw.cymru/masnach-nwyddau-rhyngwladol-cymreig-ionawr-i-rhagfyr-2025-prif-ddata-html#troednodyn-1) (<https://www.llyw.cymru/masnach-nwyddau-rhyngwladol-cymreig-ionawr-i-rhagfyr-2025-prif-ddata-html#troednodyn-1>)] a 'Nwy' (SITC 34) [[troednodyn 2](https://www.llyw.cymru/masnach-nwyddau-rhyngwladol-cymreig-ionawr-i-rhagfyr-2025-prif-ddata-html#troednodyn-2) (<https://www.llyw.cymru/masnach-nwyddau-rhyngwladol-cymreig-ionawr-i-rhagfyr-2025-prif-ddata-html#troednodyn-2>)]¹. Mae'r diwygiadau hyn bellach wedi'u cymhwyso ac wedi cynyddu gwerthoedd a chyfeintiau allforio 'Olew' a 'Nwy' a adroddwyd, a oedd yn ei dro yn effeithio ar gyfansymiau pennawd ar gyfer allforion a masnach gyffredinol (gweler **Nodiadau** (<https://www.llyw.cymru/masnach-nwyddau-rhyngwladol-cymreig-ionawr-i-rhagfyr-2025-prif-ddata-html#199878>)). Ni newidiodd y ffigurau mewnforio yn sylweddol. Bydd data yn cael ei adolygu'n rheolaidd dros y 18 mis nesaf i gyfrif am ffurflenni hwyr.

Mae'r data yn cwmpasu gwerthoedd (prisiau cyfredol) a cyfeintiau o allforion a mewnforion nwyddau.

Mae'n bwysig ystyried effaith digwyddiadau economaidd byd-eang ar werthoedd masnach yn ogystal â phwysau chwyddiant sy'n cynyddu prisiau cyfredol nwyddau.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/masnach-nwyddau-rhyngwladol-cymreig-ionawr-i-rhagfyr-2025-prif-ddata-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint** (<https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint>).

Y flwyddyn yn gorffen Rhagfyr 2025 (dros dro)

Mae'r dadansoddiad canlynol yn gymhariaeth rhwng y flwyddyn ddiweddaraf o ddata (blwyddyn sy'n dod i ben Rhagfyr 2025) a'r flwyddyn flaenorol (blwyddyn a ddaeth i ben Rhagfyr 2024).

Cyfanswm y fasnach (allforion + mewnforion)

- Cyfanswm gwerth y fasnach Gymreig oedd £39.5 biliwn, i lawr £0.7 biliwn (1.7%) o £40.2 biliwn.
- Cyfanswm gwerth masnach heb 'Olew' i Gymru oedd £32.2 biliwn, cynnydd o £0.3 biliwn (1.0%) o £31.9 biliwn.
- Cyfanswm y cyfaint masnach Gymreig oedd 23.8 biliwn kg, gostyngiad o 0.3 biliwn kg (1.3%) o 24.2 biliwn kg.
- Cyfanswm y gyfaint masnach heb 'Olew' i Gymru oedd 8.3 biliwn kg, gostyngiad o 1.1 biliwn kg (11.5%) o 9.4 biliwn kg.

Allforion

- Profodd holl wledydd y DU gynnydd yng ngwerth allforion, ac eithrio'r Alban a ostyngodd.
- Gwerth allforion nwyddau Cymreig oedd £19.2 biliwn, cynnydd o £0.3 biliwn (1.4%) o £18.9 biliwn. Cafodd hyn ei yrru i raddau helaeth gan gynnydd o £0.7 biliwn yng ngwerth allforion 'peiriannau ac offer cynhyrchu pŵer'.
- Cyfaint allforion nwyddau Cymreig oedd 7.8 biliwn kg, cynnydd o 0.3 biliwn kg (4.6%) o 7.5 biliwn kg. Cafodd hyn ei yrru i raddau helaeth gan gynnydd o 0.6 biliwn kg yng nghyfaint allforion 'Olew'.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/masnach-nwyddau-rhyngwladol-cymreig-ionawr-i-rhagfyr-2025-prif-ddata-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint) (<https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint>).

- Gwerth allforion nwyddau ar gyfer y DU oedd £358.6 billion, cynnydd o £1.2 biliwn (0.3%) o £357.4 biliwn.
- Cyfaint allforion nwyddau ar gyfer y DU oedd 123.2 biliwn kg, gostyngodd 2.9 biliwn kg (2.3%) o 126.1 biliwn kg.
- Parhaodd yr UE i gyfrif am fwyafrif o werthoedd allforio Cymru, yn cyfrif am 55.9%, tra bod yr UE yn cyfrif am 49.0% o werthoedd allforio'r DU.
- Gostyngodd gwerthoedd allforion i wledydd yr UE gan £0.1 biliwn (0.6%) i £10.7 biliwn oddi £10.8 biliwn. Cynyddodd gwerthoedd allforion i wledydd y tu allan i'r UE gan £0.3 biliwn (4.1%) i £8.5 biliwn oddi £8.1 biliwn.
- Y 3 phrif gynnyrch a allforiwyd o Gymru oedd 'Peiriannau ac Offer Cynhyrchu Pŵer' (£4.3 biliwn), 'Olew' (£2.5 biliwn) a 'Chyfarpar Trafnidiaeth Arall' (£2.5 biliwn). Roedd y cynhyrchion hyn yn cyfrif am 48.7% o allforion nwyddau Cymru.
- Y 3 phrif wlad a allforiodd Cymru iddynt oedd yr Unol Daleithiau (£2.7 biliwn), yr Almaen (£2.6 biliwn), ac Iwerddon (£2.3 biliwn). Roedd y gwledydd hyn yn cyfrif am 39.6% o allforion nwyddau Cymru.

Allforion heb 'Olew'

- Gwerth allforion nwyddau heb olew i Gymru oedd £16.6 biliwn, cynnydd o £0.4 biliwn (2.7%) o £16.2 biliwn.
- Roedd cyfaint yr allforion nwyddau heb olew i Gymru yn 2.7 biliwn kg, gostyngiad o 0.2 biliwn kg (7.4%) o 3.0 biliwn kg.
- Gwerth allforion nwyddau heb olew i'r DU oedd £336.3 biliwn, cynnydd o £6.5 biliwn (2.0%) o £329.2 biliwn.
- Roedd cyfaint yr allforion nwyddau heb olew i'r DU yn 72.9 biliwn kg, cynnydd o 0.7 biliwn kg (0.9%) o 72.2 biliwn kg.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/masnach-nwyddau-rhyngwladol-cymreig-ionawr-i-rhagfyr-2025-prif-ddata-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint) (<https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint>).

Mewnforion

- Profodd holl wledydd y DU gynnydd yng ngwerth mewnforion, ac eithrio Cymru a ostyngodd.
- Gwerth mewnforion nwyddau i Gymru oedd £20.4 biliwn, gostyngiad £0.9 biliwn (4.4%) o £21.3 biliwn. Cafodd hyn ei yrru i raddau helaeth gan ostyngiad o £0.8 biliwn yng ngwerth mewnforion 'Olew'.
- Cyfaint y mewnforion nwyddau i Gymru oedd 16.0 biliwn kg, gostyngiad o 0.7 biliwn kg (3.9%) o 16.7 biliwn kg.
- Gwerth mewnforio nwyddau i'r DU oedd £601.9 biliwn, cynnydd o £21.4 biliwn (3.7%) o £580.5 biliwn.
- Roedd cyfaint y mewnforion nwyddau ar gyfer y DU yn 268.7 biliwn kg, gostyngiad o 1.4 biliwn kg (0.5%) o 270.1 biliwn kg.
- Cyfrifodd yr UE am 37.9% o werthoedd mewnforio Cymru o'i gymharu â 52.8% o werthoedd mewnforio'r DU.
- Gostyngodd gwerthoedd mewnforio o wledydd yr UE £0.1 biliwn (0.9%) i £7.7 biliwn o £7.8 biliwn. Gostyngodd gwerthoedd mewnforio o wledydd y tu allan i'r UE £0.9 biliwn (6.4%) i £12.7 biliwn o £13.5 biliwn.
- Y 3 phrif gynnyrch a fewnforiwyd i Gymru oedd 'Olew' (£4.8 biliwn), 'Peiriannau ac Offer Cynhyrchu Pŵer' (£3.8 biliwn) ac 'Peiriannau Trydan, Offer a Chyfarpar' [[troednodyn 3](https://www.llyw.cymru/masnach-nwyddau-rhyngwladol-cymreig-ionawr-i-rhagfyr-2025-prif-ddata-html#troednodyn-3) (<https://www.llyw.cymru/masnach-nwyddau-rhyngwladol-cymreig-ionawr-i-rhagfyr-2025-prif-ddata-html#troednodyn-3>)] (£1.0 biliwn). Roedd y cynhyrchion hyn yn cyfrif am 47.1% o fewnforion nwyddau Cymru.
- Y 3 phrif wlad y mewnforiodd Cymru ohonynt oedd yr Unol Daleithiau (£3.9 biliwn), Tsieina (£1.8 biliwn) a'r Iseldiroedd (£1.3 biliwn). Roedd y gwledydd hyn yn cyfrif am 33.8% o fewnforion nwyddau Cymru.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/masnach-nwyddau-rhyngwladol-cymreig-ionawr-i-rhagfyr-2025-prif-ddata-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint) (<https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint>).

Mewnforion heb 'Olew'

- Gwerth mewnforion nwyddau heb 'Olew' i Gymru oedd £15.6 biliwn, gostyngiad £0.1 biliwn (0.8%) o £15.7 biliwn.
- Cyfaint y mewnforion nwyddau heb 'Olew' i Gymru oedd 5.5 biliwn kg, gostyngiad o 0.9 biliwn kg (13.4%) o 6.4 biliwn kg.
- Gwerth mewnforio nwyddau heb 'Olew' i'r DU oedd £563.5 biliwn, cynnydd o £29.6 biliwn (5.5%) o £533.9 biliwn.
- Cyfaint y mewnforion nwyddau heb 'Olew' i'r DU oedd 187.2 biliwn kg, cynnydd o 2.6 biliwn kg (1.4%) o 184.7 biliwn kg.

Nodiadau

Mae'r **cywiriadau heb eu trefnu a gyhoeddwyd ymlaen llaw (CThEF)**

(<https://www.uktradeinfo.com/news/pre-announcement-of-corrections-to-the-uk-overseas-trade-in-goods-statistics/>) bellach wedi'u cymhwyso i ystadegau masnach nwyddau dramor y DU a'r ystadegau masnach ranbarthol gan CThEF. O ganlyniad y cywiriadau hyn, cynyddodd gwerthoedd allforion a chyfeintiau 'Olew' (SITC33) a 'Nwy' (SITC 34). Effeithiodd mwyaf ar werthoedd allforion Llundain, Cymru, ac Heb ei dyrannu. Cynyddodd gwerthoedd allforion Cymru 2024 7.9%, sydd £1.4 biliwn yn fwy na'r cyfanswm £17.5 biliwn a gyhoeddwyd am 2024 yn flaenorol. Mae'r cynnydd o £1.4 biliwn yn bennaf oherwydd cynnydd mewn 'Olew' (£1.4 biliwn), gyda chynnydd llai mewn 'Nwy' (£17.5 miliwn). Ar gyfer Ionawr i fis Medi 2025, roedd y cynnydd tua 12.1% neu £1.5 biliwn yn fwy na'r cyfanswm cyfredol a gyhoeddwyd eisoes o £12.7 biliwn. Mae'r cynnydd o £1.5 biliwn yn bennaf oherwydd cynnydd mewn 'Olew' (£1.5 biliwn), gyda chynnydd llai mewn 'Nwy' (£15.6 miliwn).

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/masnach-nwyddau-rhyngwladol-cymreig-ionawr-i-rhagfyr-2025-prif-ddata-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint** (<https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint>).

Fe all rhywfaint o'r data masnach a gynhwysir yn y bwletin hwn cael eu diwygio ychydig gan CThEF fel rhan o ddiwygiadau rheolaidd i'r data. **Mae'r data diweddaraf ar gael ar wefan 'UK Trade Info' (CThEF)**

(<https://www.uktradeinfo.com/trade-data/rts-custom-table/>).

Oherwydd newidiadau i'r ffordd y cesglir y data, mae'n bosibl y bydd rhywfaint o fasnach gwerth bach ychwanegol a ddyrannwyd yn flaenorol i wledydd a rhanbarthau bellach yn cael ei hadrodd o dan y categori 'Heb ei ddyrannu'. Mae hyn wedi arwain at ostyngiad tebygol yn y DU i werthoedd allforio'r UE, a chyfanswm gwerthoedd allforio Cymru (a rhanbarthau eraill) o fis Ionawr 2021 ymlaen. **Gellir darllen nodiadau manylach o'r effeithiau hyn yn Sylwadau CThEF ar yr ystadegau hyn** (<https://www.uktradeinfo.com/trade-data/regional/2023/uk-regional-trade-in-goods-statistics-second-quarter-2025/>).

Yn ein **hymgyngoriad diweddar ar allbynnau ystadegol**

(<https://www.llyw.cymru/newidiadau-arfaethedig-i-allbynnau-ystadegol-llywodraeth-cymru>), cynigiom stopio gyhoeddi adroddiad blynyddol masnach nwyddau rhyngwladol Cymru (ond parhau gyda'r crynodeb chwarterol byr o bwyntiau allweddol i Gymru). Felly, rydym yn cymryd seibiant o gyhoeddi'r datganiad blynyddol tra byddwn yn dadansoddi'r ymatebion i'r ymgynghoriad. Gall defnyddwyr barhau i gyrchu'r data mwyaf cywir ac amserol (sy'n ymgorffori pob diwygiad) trwy'r penawdau chwarterol a'r **dangosfwrdd rhyngweithiol** (<https://www.llyw.cymru/masnach-nwyddau-rhyngwladol-dangosfwrdd-rhyngweithiol>).

Gwybodaeth bellach

Mae'r data uchod yn ymwneud â masnach nwyddau rhyngwladol. **Ar gyfer masnach ryngwladol mewn gwasanaethau, mae'r ystadegau swyddogol o**

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/masnach-nwyddau-rhyngwladol-cymreig-ionawr-i-rhagfyr-2025-prif-ddata-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfrain** (<https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfrain>).

dan datblygiad (2023) a gynhyrchwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) (<https://www.ons.gov.uk/businessindustryandtrade/internationaltrade/bulletins/internationaltradeinuknationsregionsandcities/latest#international-trade-in-services-and-goods-by-subnational-areas-of-the-uk-data>) yn awgrymu bod gwasanaethau yn cyfrif am oddeutu 30% o gyfanswm yr allforion yng Nghymru, ac 20% o gyfanswm y mewnforion.

Sylwch fod y dulliau yn wahanol rhwng ystadegau CThEM a'r SYG. Mae mwy o fanylion ar gael am y gwahaniaethau allweddol hyn yn **'Overseas trade in goods statistics methodology and quality report' (adran 8.4) (CThEM)** (<https://www.gov.uk/government/statistics/overseas-trade-statistics-methodologies/overseas-trade-in-goods-statistics-methodology-and-quality-report--3#coherence-and-comparability>).

Mae'r prif ganlyniadau a'r cyfrifiadau busnes yn cael eu cyhoeddi'n chwarterol ac maent ar gael ar wefan **CThEM 'Gwybodaeth Masnach y DU'** (<https://www.uktradeinfo.com/trade-data/>) ac **ystadegau masnach nwyddau y DU (CThEM)**, (<https://www.gov.uk/government/collections/uk-overseas-trade-statistics-and-regional-trade-statistics>) ochr yn ochr â'n **dangosfwrdd rhyngweithiol** (<https://www.llyw.cymru/masnach-nwyddau-rhyngwladol-dangosfwrdd-rhyngweithiol>) ein hunain.

Troednodiadau

[1 (<https://www.llyw.cymru/masnach-nwyddau-rhyngwladol-cymreig-ionawr-i-rhagfyr-2025-prif-ddata-html#1>)] 'Petroliwm, cynhyrchion petroliwm a deunyddiau cysylltiedig' (SITC33)

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/masnach-nwyddau-rhyngwladol-cymreig-ionawr-i-rhagfyr-2025-prif-ddata-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint** (<https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint>).

[2 (<https://www.llyw.cymru/masnach-nwyddau-rhyngwladol-cymreig-ionawr-i-rhagfyr-2025-prif-ddata-html#2>)] 'Nwy, naturiol ac wedi'i weithgynhyrchu (SITC34)

[3 (<https://www.llyw.cymru/masnach-nwyddau-rhyngwladol-cymreig-ionawr-i-rhagfyr-2025-prif-ddata-html#3>)] 'Peiriannau trydan, offer a chyfarpar a'u cydrannau trydan nad ydynt wedi'u nodi mewn manau eraill' (SITC77)

Manylion cyswllt

Ystadegau Masnach

E-bost: ystadegau.masnach@llyw.cymru (<mailto:ystadegau.masnach@llyw.cymru>)

Cyfryngau: 0300 025 8099



Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.

Drllenwch ein [datganiad hygyrchedd](https://www.llyw.cymru/datganiad-hygyrchedd-llywcymru) (<https://www.llyw.cymru/datganiad-hygyrchedd-llywcymru>) i gael rhagor o wybodaeth.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/masnach-nwyddau-rhyngwladol-cymreig-ionawr-i-rhagfyr-2025-prif-ddata-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint) (<https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint>).